# Cyfrannu at hyfforddiant ceffylau o’r ddaear

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfrannu at hyfforddiant ceffylau o'r ddaear. Mae'n cynnwys addysgu'r ceffyl ifanc i dderbyn disgyblaeth, y ffrwyn, y cyfrwy a'r marchog.

Mae'r safon hon yn ymwneud ag arwain, rhoi ar ffrwyn hir neu arwain y ceffyl a thywys y ceffyl wysg ei gefn mewn ardaloedd caeëdig ac mewn ardaloedd agored. Dylech allu dewis a gosod harneisiau addas, hyfforddi'r ceffyl a chyflwyno'r ceffyl i'r marchog.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis a gosod harneisiau addas ar gyfer hyfforddi'r ceffyl o'r ddaear
3. sefydlu a chytuno ar dargedau a monitro cynnydd yr hyfforddiant
4. cyfrannu at hyfforddiant y ceffyl, yn y lleoliad gofynnol, yn unol â'r anghenion hyfforddiant cytûn
5. monitro cynnydd a lles y ceffyl drwy'r amser, a hysbysu ynghylch a diwygio'r rhaglen hyfforddiant fel y bo'n briodol
6. paratoi'r ardal ar gyfer tywys y ceffyl wysg ei gefn
7. dewis a gosod harneisiau addas ar gyfer tywys y ceffyl wysg ei gefn
8. cyflwyno'r ceffyl i'r marchog, yn unol ag arfer da cyfredol
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y mathau o offer arbenigol a sut i'w defnyddio
3. effeithiau arwain a rhoi ar ffrwyn hir ar fathau amrywiol o geffylau
4. sut i gynnwys arwain a rhoi ar ffrwyn hir mewn rhaglen hyfforddiant
5. y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hyfforddi ceffylau ifanc o'r ddaear a cheffylau â phroblemau ymddygiadol penodol
6. y dulliau o gyflwyno'r ceffyl i'r marchog
7. pryd a sut i ddiwygio rhaglen hyfforddiant
8. y mathau o gofnodion sy'n ofynnol a phwysigrwydd eu cynnal
9. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Lleoliadau:

- ardal gaeëdig
- ardal agored

Cyfrannu at hyfforddiant ceffylau o’r ddaear

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq320 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; hyfforddiant; ymarfer |